

Cyfrinachedd: datgelu gwybodaeth am glefydau trosglwyddadwy difrifol

1 Yn ein harweiniad *Cyfrinachedd: arfer da wrth drin gwybodaeth cleifion* rydym yn nodi:

- 1 Mae ymddiriedaeth yn rhan hanfodol o'r berthynas rhwng meddyg a chlaf ac mae cyfrinachedd yn ganolog i hyn. Efallai y bydd cleifion yn osgoi ceisio help meddygol, neu efallai na fyddant yn rhoi disgrifiad llawn o'u symptomau, os byddant yn credu y bydd meddygon yn datgelu eu gwybodaeth bersonol heb eu caniatâd, neu os na fyddant yn cael y cyfle i gael rhywfaint o reolaeth dros yr amseru neu swm y wybodaeth a rennir.
- 17 Rhaid i chi ddatgelu gwybodaeth os yw hynny'n ofynnol gan statud neu os bydd barnwr neu swyddog gweinyddol llys barn yn rhoi gorchymyn i chi wneud hynny.
- 18 Rhaid i chi deimlo'n fodlon bod y datgeliad yn ofynnol yn ôl y gyfraith a dim ond gwybodaeth sy'n berthnasol i'r cais y dylech ei datgelu. Pryd bynnag y bo hynny'n ymarferol, dylech ddweud wrth gleifion am ddatgeliadau o'r fath, oni bai y byddai hynny'n tansilio'r diben, er enghraifft trwy niweidio'r broses o atal, datrys neu erlyn trosedd ddifrifol
- 62 Dylech ofyn am ganiatâd claf i ddatgelu gwybodaeth er mwyn diogelu eraill oni bai nad yw hi'n ddiogel neu'n ymarferol i chi wneud hynny,¹ neu os yw'r wybodaeth yn ofynnol yn ôl y gyfraith. Dylech ystyried unrhyw resymau a roddir dros wrthod rhoi caniatâd.
- 64 Os nad yw hi'n ymarferol i chi geisio caniatâd, ac mewn achosion eithriadol pan

fo claf wedi gwrthod rhoi eu caniatâd, efallai bod modd cyfiawnhau datgelu gwybodaeth bersonol er budd y cyhoedd os allai methu gwneud hynny olygu bod eraill mewn perygl o ddiodef niwed difrifol neu farwolaeth. Rhaid i'r budd i unigolyn neu i gymdeithas o ddatgelu'r wybodaeth fod yn drech na'r budd i'r cyhoedd ac i'r claf o gadw'r wybodaeth yn gyfrinachol.

- 68 Os ydych o'r farn y byddai methu datgelu'r wybodaeth yn golygu bod unigolion neu gymdeithas mewn perygl mor ddifrifol fel ei fod yn drech na'r budd i'r claf ac i'r cyhoedd o gynnal cyfrinachedd, dylech ddatgelu gwybodaeth berthnasol yn brydlon i unigolyn neu awdurdod priodol. Dylech hysbysu'r claf cyn datgelu'r wybodaeth, os yw'n ymarferol ac yn ddiogel i chi wneud hynny, hyd yn oed os ydych yn bwriadu datgelu heb sicrhau eu caniatâd.

Am yr arweiniad hwn

- 2 Mae cyfrinachedd yn bwysig i bob claf ac mae gan bob claf yr hawl i fanteisio ar ofal o safon da, waeth pa glefyd y gallai fod ganddynt, neu sut y cawsant y clefyd hwnnw. Efallai bod y rhai y mae ganddynt neu y gallai fod ganddynt glefyd trosglwyddadwy difrifol² yn pryderu am eu preifatrwydd yn arbennig. Mae cyfrinachedd yn berthnasol pan fo meddygon yn troi at, yn defnyddio neu'n datgelu gwybodaeth am statws haint cleifion sydd â chlefydau trosglwyddadwy difrifol.

Diogelu gwybodaeth rhag cael ei datgelu mewn ffordd amhriodol

- 3 Dylech sicrhau bod gwybodaeth yr ydych yn ei dal neu'n ei rheoli ac sy'n ymwneud â statws haint claf yn cael ei diogelu mewn ffordd effeithiol bob amser rhag cael ei datgelu mewn ffordd amhriodol. Os byddwch yn datgelu gwybodaeth am statws haint claf, rhaid i chi sicrhau eich bod yn datgelu cyn lleied ag sy'n angenrheidiol at y diben dan sylw.

Rheoli a goruchwylio clefydau trosglwyddadwy difrifol

- 4 Rhaid i chi gyfleu gwybodaeth am glefydau hysbysadwy i'r awdurdodau perthnasol er mwyn rheoli a goruchwylio clefydau trosglwyddadwy. Mae gofyn hysbysu am wahanol glefydau mewn gwahanol wledydd yn y DU ac mae'r trefniadau adrodd yn gwahaniaethu. Dylech ddilyn y trefniadau yn y wlad lle'r ydych yn gweithio.³ Dylech ddatgelu gwybodaeth ddienw os yw hynny'n ymarferol ac os bydd hynny'n cyflawni'r diben.

Diogelu cleifion rhag risgiau sy'n deillio o'ch iechyd chi neu iechyd eich cydweithwyr

- 5 *Mae Arfer meddygol da*⁴ yn nodi:
 - 28 Os ydych yn gwybod bod gennych, neu os ydych yn credu y gallai fod gennych, gyflwr difrifol y gallech ei drosglwyddo i gleifion, neu os allai'ch barn neu'ch perfformiad gael ei effeithio gan gyflwr neu ei driniaeth, rhaid i chi ymgynghori â chydweithiwr sy'n meddu ar gymwysterau addas. Rhaid i chi ddilyn eu cyngor ynghylch unrhyw newidiadau i'ch arfer sy'n angenrheidiol yn eu barn nhw. Ni ddylech ddibynnu ar eich asesiad chi o'r risg yr ydych yn ei achosi i gleifion.
 - 29 Dylech gael eich imiweiddio yn erbyn clefydau heintus difrifol cyffredin (oni bai bod hyn yn cael ei wrthgymeradwyo fel arall).

- 6 Dylech ddilyn ein harweiniad *Mynegi pryderon am ddiogelwch cleifion a gweithredu yn eu cylch* os ydych yn pryderu bod cydweithiwr y mae ganddynt glefyd trosglwyddadwy difrifol yn gweithio neu wedi bod yn gweithio mewn ffordd sy'n rhoi cleifion mewn perygl o gael eu heintio.⁵ Dylech hysbysu'ch cydweithiwr cyn cyfleu'r wybodaeth, ar yr amod ei bod yn ymarferol ac yn ddiogel i chi wneud hynny.

Datgelu gwybodaeth i'r rhai sy'n darparu gofal uniongyrchol am gleifion y rhoddir diagnosis iddynt eu bod yn dioddef clefyd trosglwyddadwy difrifol

- 7 Mae'r rhan fwyaf o gleifion yn deall ac yn disgwyl bod yn rhaid rhannu gwybodaeth berthnasol o fewn y tîm gofal uniongyrchol er mwyn darparu eu gofal. Os bydd claf yn gwrthwynebu i'r cam o ddatgelu gwybodaeth bersonol sy'n hanfodol er mwyn darparu gofal diogel iddynt yn eich barn chi, dylech ddilyn yr arweiniad ym mharagraffau 30 a 31 *Cyfrinachedd*. Os na fydd y claf yn meddu ar alluedd i wneud y penderfyniad, mae modd i chi ddatgelu gwybodaeth os yw hynny er budd cyffredinol iddynt, yn unol â'r arweiniad ym mharagraffau 48 a 49 *Cyfrinachedd*.
- 8 Os bydd claf y rhoddwyd diagnosis iddynt bod ganddynt glefyd trosglwyddadwy difrifol yn gwrthod caniatáu i chi ddweud wrth eraill sy'n darparu eu gofal am eu statws haint, ac os ydych chi o'r farn y bydd methu datgelu'r wybodaeth yn rhoi gweithwyr gofal iechyd neu gleifion eraill mewn perygl o gael eu heintio, dylech esbonio canlyniadau posibl eu penderfyniad i'r claf, gan ystyried gyda'r claf a oes modd dod i unrhyw gyfaddawd.
- 9 Yn yr un modd â phawb arall, mae gan weithwyr gofal iechyd yr hawl i gael eu diogelu rhag risg niwed difrifol. Ond mae'n annhebygol y bydd modd cyfiawnhau datgelu gwybodaeth am statws haint claf heb sicrhau eu caniatâd os na fyddai hynny'n gwneud unrhyw wahaniaeth i'r risg o drosglwyddo'r haint – er enghraifft, os yw'r

risg yn debygol o gael ei reoli trwy ddefnyddio rhagofalon cyffredinol sydd eisoes mewn grym.⁶ Os bydd y claf yn parhau i wrthod caniatáu i chi ddweud wrth aelodau eraill y tîm gofal iechyd am eu statws haint, rhaid i chi gydymffurfio â'u dymuniadau oni bai eich bod o'r farn ei bod yn angenrheidiol datgelu'r wybodaeth er mwyn diogelu gweithwyr gofal iechyd neu gleifion eraill rhag risg marwolaeth neu niwed difrifol.

Datgelu gwybodaeth mewn ymateb i anafiadau i gydweithwyr ac eraill

- Os bydd cydweithiwr, heddwes neu unrhyw un arall yn dioddef anaf a achosir gan nodwydd neu anaf tebyg sy'n ymwneud â chlaf y mae ganddynt neu y gallai fod ganddynt glefyd trosglwyddadwy difrifol, dylech sicrhau bod cydweithiwr sy'n meddu ar gymhwyster priodol yn cynnal asesiad risg ar unwaith. Dylid cynnig proffylacsis ôl-gyswllt yn unol â'r asesiad risg hwnnw, gan ddibynnu ar y math o hylif y corff neu sylwedd dan sylw a llwybr a difrifoldeb y cyswllt.⁷
- Dylech ofyn am ganiatâd y claf i ddatgelu eu statws haint ar ôl i bobl arall gael cyswllt posibl â chlefyd trosglwyddadwy difrifol. Os na fydd modd perswadio'r claf i roi eu caniatâd i ddatgeliad neu os nad yw hi'n ddiogel neu'n ymarferol gofyn am eu caniatâd, mae modd i chi ddatgelu gwybodaeth os ellir cyfiawnhau hynny er budd y cyhoedd. Gallai hyn, er enghraifft, fod mewn achosion pan fydd angen cael y wybodaeth er mwyn gwneud penderfyniadau am briodolrwydd parhaus proffylacsis ôl-gyswllt.

Hysbysu pobl y maent mewn perygl o gael eu heintio gan glefyd trosglwyddadwy

- Dylech esbonio i gleifion y mae ganddynt glefydau trosglwyddadwy difrifol sut y gallant ddiogelu eraill rhag cael eu heintio, gan gynnwys cael eu heintio gan glefydau a drosglwyddir yn rhywiol. Mae hyn yn cynnwys y mesurau ymarferol y mae modd iddynt eu cymryd er mwyn osgoi trosglwyddo'r clefyd, a phwysigrwydd hysbysu pobl y maent wedi cael cyswllt rhywiol â nhw o berygl trosglwyddo clefydau trosglwyddadwy difrifol.

- Mae modd i chi ddatgelu gwybodaeth i unigolyn sy'n cael cyswllt agos â chlaf sydd â chlefyd trosglwyddadwy difrifol os oes gennych chi reswm dros gredu:

- bod yr unigolyn mewn perygl o gael eu heintio a bod hyn yn debygol o arwain at niwed difrifol
- nad yw'r claf wedi eu hysbysu ac ni ellir eu perswadio i wneud hynny.

- Os ydych o'r farn nad oes oedolyn sydd mewn perygl o gael eu heintio yn meddu ar alluedd i ddeall y wybodaeth hon, a'u bod mewn perygl o ddioddef niwed difrifol, rhaid i chi roi gwybodaeth berthnasol i awdurdod neu unigolyn cyfrifol priodol yn ddi-oed, oni bai nad yw gwneud hyn o fudd cyffredinol i'r claf (gweler paragraff 55 a 56 *Cyfrinachedd*).
- Dylech ddweud wrth y claf cyn i chi ddatgelu'r wybodaeth os yw'n ymarferol ac yn ddiogel i chi wneud hynny. Pan fyddwch yn olrhain ac yn hysbysu pobl, ni ddylech ddatgelu manylion y claf os yw hynny'n ymarferol. Rhaid i chi fod yn barod i gyfiawnhau penderfyniad i ddatgelu gwybodaeth bersonol heb sicrhau caniatâd.⁸

Datgelu gwybodaeth pan fydd plant a phobl ifanc mewn perygl o ddioddef clefyd trosglwyddadwy difrifol

- Bydd y rhan fwyaf y cleifion sydd â chlefyd trosglwyddadwy difrifol ac y maent yn rhieni sy'n gofalu am blant, yn gwneud popeth y gallant i ddiogelu'r plant rhag y perygl y byddant yn cael eu heintio neu rhag effeithiau'r clefyd. Dylech sicrhau bod y claf yn deall y wybodaeth a'r cyngor yr ydych yn ei rhoi iddynt, a ddylai fod yn bwrpasol i'w hanghenion. Dylech wneud popeth rhesymol y gallwch ei wneud i'w cynorthwyo i ofalu am eu hunain ac i ddiogelu eu plant.
- Dylech esbonio i glaf sydd â chlefyd trosglwyddadwy difrifol, bwysigrwydd profi plant y gallent eisoes fod wedi cael eu heintio, gan gynnwys plant heb symptomau a phobl ifanc y gallent fod wedi cael eu heintio'n fertigol gan feirws a gludir yn y gwaed.

18 Os ydych yn pryderu bod plentyn mewn perygl o ddiodeff niwed difrifol gan nad oes modd perswadio eu rhieni i'w diogelu rhag risg haint, neu oherwydd eu bod yn gwrthod caniatáu i'r plentyn gael eu profi, dylech ei drin fel pryder diogelu a dilyn y cyngor yn ein harweiniad *Diogelu plant a phobl ifanc: cyfrifoldebau pob meddyg*.⁹

Cofnodi clefydau trosglwyddadwy difrifol ar dystysgrifau marwolaeth

19 Os bydd clefyd trosglwyddadwy difrifol wedi cyfrannu at achos y farwolaeth, rhaid i chi gofnodi hyn ar dystysgrif marwolaeth y claf.

Ôl-nodion

- 1 Rydym yn rhoi enghreifftiau o adegau pan na fydd hi'n ymarferol ceisio caniatâd efallai ym mharagraff 14 *Cyfrinachedd: arfer da wrth drin gwybodaeth cleifion*. Mae modd i chi weld ein holl arweiniad ar-lein trwy droi at www.gmc-uk.org/guidance.
- 2 Yn yr arweiniad hwn, mae'r term 'clefyd trosglwyddadwy difrifol' yn berthnasol i unrhyw glefyd y bydd modd ei drosglwyddo o unigolyn i unigolyn, ac sy'n gallu arwain at farwolaeth neu salwch difrifol. Yn arbennig, mae'n berthnasol i, ond nid wedi ei gyfyngu i, HIV, twbercwlosis, a hepatitis B a C.
- 3 Mae modd i chi gael cyngor gan yr Asiantaeth Diogelu Iechyd yn Lloegr, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Canolfan Goruchwyllo Clefydau Trosglwyddadwy yng Ngogledd Iwerddon a Health Protection Scotland.
- 4 *Arfer meddygol da* (Cyngor Meddygol Cyffredinol, 2013). Mae modd i chi weld ein holl arweiniad ar-lein trwy droi at www.gmc-uk.org/guidance.
- 5 *Gweler Health clearance for tuberculosis, hepatitis B, hepatitis C and HIV: New healthcare workers* (Adran Iechyd, 2007); *Health Clearance for Tuberculosis, Hepatitis B, Hepatitis C and HIV for new Healthcare Workers with direct clinical contact with patients* (Llywodraeth yr Alban, 2008); *The Management of HIV infected Healthcare Workers who perform exposure prone procedures: updated guidance* (Adran Iechyd, 2014); a *HIV Infected Health Care Workers: Guidance on Management and Patient Notification* (Llywodraeth yr Alban, 2005).
- 6 Rhagofalon cyffredinol, a elwir rhagofalon rheoli haint safonol fel arall, yw'r mesurau sylfaenol er mwyn rheoli ac atal heintiau, sy'n angenrheidiol er mwyn lleihau'r risg o drosglwyddo cyfryngau heintus. Darparir arweiniad ynghylch rheoli haint gan Health Protection Scotland, GIG Cymru, DHSSPS Gogledd Iwerddon a'r Adran Iechyd yn Lloegr.
- 7 *Guidance for clinical health care workers: protection against infection with blood-borne viruses – Expert Advisory Group on AIDS and the Advisory Group on Hepatitis* (Adran Iechyd, 1998); *HIV post-exposure prophylaxis: guidance from the UK Chief Medical Officers' Expert Advisory Group on AIDS* (Adran Iechyd, 2008).
- 8 Mae Rheoliadau GIG (Clefydau Gwenerol) 1974, *Cyfarwyddiadau Ymddiriedolaethau GIG (Clefydau Gwenerol) 1991 a Chyfarwyddiadau Ymddiriedolaethau GIG ac Ymddiriedolaethau Gofal Sylfaenol (Clefydau a Drosglwyddir yn Rhywiol) 2000* yn nodi bod yn rhaid i gyrrff GIG amrywiol yng Nghymru a Lloegr 'gymryd yr holl gamau angenrheidiol er mwyn sicrhau na chaiff unrhyw wybodaeth y mae modd iddi ddatgelu manylion unigolyn ... mewn perthynas ag unigolion sy'n cael eu harchwilio neu eu trin am unrhyw glefyd a drosglwyddir yn rhywiol, ei datgelu ac eithrio – (a) at ddibenion cyfleu'r wybodaeth honno i ymarferwr meddygol, neu i unigolyn a gyflogir dan gyfarwyddyd ymarferwr meddygol mewn perthynas â'r driniaeth ar gyfer unigolion sy'n dioddef clefyd o'r fath neu er mwyn ei atal rhag lledaenu, a (b) at ddibenion triniaeth a gweithgarwch atal o'r fath.' Ceir gwahanol ddehongliadau o reoliadau a chyfarwyddiadau, a phryderon ynghylch eu cydweddoldeb â'r *Confensiwn Ewropeidd ar Hawliau Dynol*. Yn arbennig, bu pryderon y byddai dehongliad llym o'r rheoliadau'n atal gwybodaeth berthnasol rhag cael ei datgelu, ac eithrio i feddygon eraill neu'r rhai sy'n gweithio dan eu goruchwyliaeth, hyd yn oed gyda chaniatâd y claf. Bu pryderon hefyd y byddai'r rheoliadau'n atal gwybodaeth rhag cael ei datgelu i gysylltiadau rhywiol hysbys er budd y cyhoedd. Ein barn ni yw nad yw'r rheoliadau a'r cyfarwyddiadau yn gwahardd datgelu os byddai hynny'n gyfreithlon fel arall yn unol â'r gyfraith gyffredin, er enghraifft gyda chaniatâd y claf neu er budd y cyhoedd heb sicrhau caniatâd.
- 9 Gweler hefyd ein hastudiaeth achos am riant sy'n gwrthod caniatáu i'w mherch gael prawf HIV, sydd ar gael trwy droi at www.gmc-uk.org/guidance/ethical_guidance/13561.asp.